# CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

# A GYNHALIWYD AR 21 GORFFENNAF 2015 YN NHŶ HASTINGS.

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; a, Mr David Powell.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygu); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygu); a Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygu)

**Yn arsylwi:** Mrs Julie May

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mrs Catherine Thomas (Cynorthwydd Arolygu); a Miss Caroline Roe (Cynorthwydd Swyddfa)

**Amser dechrau:** 10:20 am
**Amser gorffen:** 1:00 pm

## 1. Datganiadau o fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Mrs Julie May i'r cyfarfod. Penodwyd Mrs May yn aelod o'r Comisiwn o fis Medi 2015, ac fe'i gwahoddwyd i fynychu'r cyfarfod fel arsylwr.

2.2 Cyhoeddodd y Cadeirydd fod yr asiantau sy'n gweithredu ar ran Gweinyddwyr prydles y Comisiwn ar ei swyddfa yn Nhŷ Hastings yn trafod defnydd Llys Fitzalan yn y dyfodol. Deallwyd y gallai Tŷ Hastings gael ei eithrio o'r cynigion datblygu, ond y caiff y mater ei ystyried yn y Gofrestr Risg.

2.3 Roedd trafodaeth ynghylch Cyfarwyddyd drafft yn cael ei gynnal yn Llywodraeth Cymru o hyd. Wedi i'r mater ynghylch nifer y cynghorwyr gael ei benderfynu a'i gysylltu â'r cynigion mapiau priodol, yna gall ymgynghoriad ddechrau ynghylch Polisi ac Arfer y Comisiwn.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2015

3.1 **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2015, yn amodol ar fân newidiadau i 15.2 i egluro penodiad Mrs Julie James fel Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Risg.

3.2 Nodwyd y gwnaed camgymeriadau mewn dau Arolwg yn ddiweddar, ac anfonwyd llythyr cywiro ac ymddiheuro at y Gweinidog mewn un achos. Barn y Comisiynwyr oedd bod y sefyllfa hon yn gwbl anfoddhaol a'i bod yn risg bosibl i enw da'r Comisiwn, yn enwedig yn ystod y cyfnod o waith dwys a mwy o graffu sydd ar ddod. Crybwyllodd y Prif Weithredwr y byddai'n codi pwysigrwydd rheoli ansawdd

yn y cyfarfod staff ym mis Awst, ac y byddai'n ystyried adolygu'r arferion presennol.

3.3 Penderfynwyd:

i) cefnogi bwriad y Prif Weithredwr i dynnu sylw'r staff at y pryderon; a

ii) gwneud cais am adroddiad i'r Comisiwn ar y gweithdrefnau Rheoli Ansawdd, i gynnwys eglurhad o'r gofynion ar Gomisiynwyr ac, yn benodol Comisiynwyr Arweiniol, yn y prosesau sicrhau.

## 4. Materion yn codi

4.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 8 Mehefin gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn codi.

4.2 **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, a nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol:

- (Mater 2) Holiadur Ôl-arolygiad a Holiadur Cyffredinol – Caiff holiadur Sir Benfro ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Caiff holiaduron yn y dyfodol eu datblygu ymhellach a'u cysylltu'n agosach â'u harolygon perthynol, a chaiff yr arolwg cyffredinol ei ohirio am y tro. **Ralph Handscomb/Steve Halsall**

- (Mater 3) Arolygon prif ardaloedd – mae'r cyfarwyddiadau desg yn parhau i gael eu datblygu a'u diweddaru. Tachwedd 2015. **Matt Redmond**

- (Mater 4) Maint Cynghorau Cymuned – i'w ystyried ymhellach ar ôl i LlC ystyried democratiaeth leol. **Steve Halsall**

- (Mater 5) Arolygon Cymunedol – mae cyfarwyddiadau desg yn cael eu profi a chaiff gwelliannau sicrhau ansawdd eu cynnwys. Parhaus. **Matt Redmond**

- (Mater 6) Pwerau i wneud Gorchmynion Cymunedol. Gohiriwyd hyn nes bydd y pwerau'n ofynnol a bod manylion am y gwaith sy'n ofynnol wedi'u cadarnhau â Llywodraeth Cymru. **Steve Halsall/Matt Redmond**

- (Mater 7) Cyfarfod y Grŵp Cynllunio Etholiadau – cyfarfod nesaf fis Hydref 2015, nid yw'r dyddiad wedi cael ei benderfynu hyd yn hyn. **Steve Halsall**

- (Mater 9) Teithio a Chynhaliaeth – ymchwilio i yswiriant. Mae angen cadarnhau hyn o hyd. **Matt Redmond/Rachel Williams/Ross Evans**

- (Mater 10) Telerau ac Amodau Staff – roedd hyn i fod i gael ei ystyried ym mis Gorffennaf, ond fe'i gohiriwyd ymhellach tan fis Medi er mwyn paratoi papur i Is-bwyllgor y Gweithlu. **Steve Halsall**

- (Mater 12) Gwasanaethau Cyfreithiol. Rydym yn aros am yr ymateb gan Gyfreithiwr y Trysorlys o hyd, ond bydd angen rhoi blaenoriaeth uwch i hyn oherwydd pryderon yn ymwneud â'r brydles ar Dŷ Hastings. **Rachel Williams**

- (Mater 13) Penodi Comisiynwyr – nodwyd yn flaenorol y penodwyd Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza gan y Gweinidog yn Aelodau'r Comisiwn. Caiff y cwrs sefydlu ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi. **Steve Halsall**

- (Mater 15) Un Llais Cymru - anerchodd y Cadeirydd Gynhadledd Cynghorau Mwy Un Llais Cymru yn Llanfair ym Muallt ar 8 Gorffennaf 2015, ac fe gafodd ymatebion cadarnhaol gan y rhai a oedd yn bresennol.

- (Mater 15) Adroddiad Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg – cyflwynwyd i Gomisiynydd y Gymraeg. Cydnabuwyd ei fod wedi'i dderbyn, ond rydym yn aros am ymateb o hyd cyn ei gyhoeddi. **Tom Jenkins**

- (Mater 16) Porth Comisiynu Ar-lein – anfonwyd y gwahoddiad i dendro, ac rydym yn aros am ymateb o hyd. Awst 2015. **Matt Redmond**

- (Mater 18) Adroddiad Blynyddol – i'w lofnodi yn ARAC. Cyhoeddi erbyn Awst 2015. **Steve Halsall**

- (Mater 19) Cyfarfod Rhyng-gomisiynol – pennwyd dyddiad dros dro o 17/18 Tachwedd ac mae Comisiynau Cymru wedi ymateb i'r gwahoddiad. **Steve Halsall/ Comisiynwyr**

- (Mater 20) Ymchwiliad Safonau'r Gymraeg – cafwyd adroddiad o'r ymchwiliad. Caiff dadansoddiad ei baratoi i'w ystyried yn y cyfarfod ar 21 Gorffennaf. **Steve Halsall**

- (Mater 22) Gorchymyn Banc – trefnu taliadau â'r banc wedi i'r holl uwch reolwyr sydd ar gael ddarparu prawf o'u hunaniaeth. **Dave Carr**

**Materion newydd yn codi**

- Buddsoddwyr mewn Pobl – gwnaed trefniadau ar gyfer ailasesu. Trefnwyd cyfweliadau ac ymgynghoriad dros y ffôn ar gyfer 18 Awst 2015. **Steve Halsall/ Rachel Williams**

## 5. Adroddiad ar Ymchwiliad Safonau'r Gymraeg

5.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 26 Mehefin gan y Prif Weithredwr. Rhoddodd adroddiad ar ganlyniadau arolwg a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg i effaith y Safonau Iaith arfaethedig. Byddai'r Safonau arfaethedig, pe byddant yn cael eu mabwysiadu gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn amodol ar Reoliadau yn rhwymo'r Comisiwn trwy Hysbysiadau Cydymffurfio.

5.2 Roedd yr adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r arolwg, eu heffaith bosibl ar y Comisiwn, a'r nifer fawr o faterion sy'n mynnu diffiniad pellach.

5.3 **Penderfynwyd**:

i. Archwilio’r modd o gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ar gynnwys y rheoliadau posibl

ii. Dadansoddi’r Hysbysiad Cydymffurfio wedi iddo gael ei dderbyn.

iii. Cymharu rhwymedigaethau ac ymatebion â chyrff eraill tebyg a noddir gan y Cynulliad.

## 6. Cynllunio Arolygon Etholiadol

6.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 9 Gorffennaf 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr, a gyflwynodd y cynllunio ar gyfer arolygon etholiadol yn y dyfodol.

6.2 **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a’r cynllunio cyfredol ar gyfer arolygu’r ddau opsiwn Mapiau posibl i Gymru, ac ystyriodd y posibilrwydd ar gyfer unrhyw newidiadau a all ddigwydd cyn dechrau’r arolygon cychwynnol.

6.3 **Cytunwyd** bod y drefn ddewisol ar gyfer amserlen yr arolygon cychwynnol fel a ganlyn:

- Gorllewin Morgannwg
- Morgannwg Ganol
- Gwent
- Dyfed
- De Morgannwg
- Gwynedd
- Clwyd
- Powys - i’w ystyried yn y dyfodol y tu allan i’r rhaglen bresennol

6.4 **Penderfynwyd** cytuno â’r adroddiad a’r cynlluniau ar gyfer adnoddau a gwariant yn y dyfodol, yn amodol ar y newid cytûn i drefn yr arolygon ar yr amserlen. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

## 7. Rheoli Risg

7.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 9 Gorffennaf 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2 **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad; **penderfynwyd** ychwanegu’r canlynol:

- Ychwanegu risg newydd sydd wedi dod i’r amlwg, sef CR8, yn ymwneud â’r mater adeiladau yn gysylltiedig â’r posibilrwydd o amhariad pe byddai Llys Fitzalan yn cael ei ailddatblygu’n llety i fyfyrwyr a phe byddai rhaid i’r

Comisiwn adael Tŷ Hastings ar ddiwedd cyfnod y brydles neu cyn hynny, neu pe na fyddai'r landlord yn adnewyddu'r brydles. Ystyriwyd bod y Graddfeydd Risg yn 5 ar gyfer Effaith a 3 ar gyfer Tebygolrwydd.

- Er mwyn lleihau'r risg, byddai cyngor yn cael ei geisio gan Syrfëwr Ystadau Llywodraeth Cymru i ddechrau, ar wneud cais am brydles newydd ar gyfer yr adeilad presennol, lefel y rhent posibl a'r goblygiadau o ran costau, gyda'r bwriad o sicrhau meddiannaeth sicr yn ystod cyfnod dwys o waith arolygu.

7.3 **Penderfynodd** y Comisiwn gytuno ar destun y Gofrestr Risg yn amodol ar y newid uchod. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid a'r Prif Weithredwr.**

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 8 Gorffennaf 2015 gan y Rheolwr Cyllid.

2.4 Nododd y Comisiwn sefyllfa'r gyllideb hyd ddiwedd mis Mehefin 2015 a'r tanwariant o £21,000, a oedd o ganlyniad i swydd wag barhaus yn bennaf, er y gwnaed penodiad ac y disgwyliwyd i'r aelod staff newydd ymgymryd â swydd Swyddog Arolygu ddechrau mis Awst 2015.

8.2 Roedd tanwariant arall a nodwyd, fel cyfieithu, argraffu a phostio, o ganlyniad i gyllid a fyddai'n cael ei wario ar y gwaith arolygu sydd ar ddod. Nodwyd rhai enghreifftiau o orwario hefyd, fel hyfforddiant staff, costau teithio a chynhaliaeth yr Ysgrifenyddiaeth ac offer swyddfa o ganlyniad i hyfforddi Swyddogion Arolygu ar feddalwedd newydd MapInfo fersiwn 12.5 ac ailgyflenwi'r stoc cetris argraffu, ond disgwyliwyd i'r rhain fod yn ôl o fewn y gyllideb dros yr ychydig fisoedd nesaf, neu y byddai cyllid yn cael ei ddyrannu o rannau eraill o'r gyllideb.

8.3 **Penderfynodd** y Comisiwn gytuno ar Adroddiad y Gyllideb.

## 9. Profi'r Cynllun Parhad Busnes

9.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 17 Mehefin 2015 gan y Rheolwr Cyllid i roi gwybod i aelodau am y prawf archwilio diweddar o Gynllun Parhad Busnes CFfDLC.

9.2 **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r cofnodion atodedig o'r cyfarfod prawf ar 11 Mehefin 2015, ac ystyriodd y diweddariadau a argymhellwyd yn yr adroddiad.

9.3 **Penderfynwyd** cytuno â'r adroddiad a'r newidiadau argymelledig i fersiwn flaenorol y Cynllun Parhad Busnes.

**10. Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Comisiwn**

10.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 23 Mehefin 2015 gan y Rheolwr Cyllid, a oedd yn ymateb i ddiweddaru'r templed ar gyfer Cod Ymddygiad Aelodau Bwrdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar.

10.2 **Nododd** y Comisiwn fod y cod ymddygiad blaenorol wedi ei seilio ar dempled Swyddfa'r Cabinet ac wedi'i gynnwys yn y Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol. **Cytunwyd** ar y canlynol:

- Roedd yn well gan y Comisiwn y Cod Ymddygiad blaenorol wedi'i seilio ar fersiwn Swyddfa'r Cabinet na thempled Llywodraeth Cymru, oherwydd ei fod yn cynnwys mwy o fanylion am rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau a'r Swyddog Cyfrifyddu ac ati, felly byddai'n cael ei gadw;
- Byddai'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau yn parhau'n rhan o'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol yn hytrach nag yn ddogfen ar wahân;
- Byddai paragraff 1 y Cod Ymddygiad i Aelodau yn cael ei ddileu; a
- Byddai paragraff 2 yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau cywirdeb.

10.3 **Penderfynwyd** cytuno â'r templed newydd ar gyfer y Cod Ymddygiad ac aros am fersiwn gyfredol yn adlewyrchu'r newidiadau argymelledig. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

**11. Arolwg Cymunedol Sir y Fflint**

11.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 9 Gorffennaf 2015 gan y Swyddog Arolygu.

11.2 Bydd y Swyddog Arolygu yn anfon fersiwn gyfredol o'r Adroddiad Cynigion Terfynol at y Comisiynydd Arweiniol.

11.3 **Nodwyd** yr adroddiad**.**

**12. Arolwg Ôl-arolwg Sir Benfro**

12.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 30 Mehefin gan y Swyddog Arolygu. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

12.2 Roedd y Comisiwn o'r farn bod yr holiadur yn ymarfer gwerthfawr, a **chytunodd** dosbarthu'r holiadur ar gyfer arolwg Rhondda Cynon Taf ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori o chwe wythnos.

**13. Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth**

13.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 3 Gorffennaf gan y Prif Weithredwr. **Nodwyd** yr adroddiad.

13.2 **Cytunodd** y Comisiwn i fabwysiadu'r cod ar ôl drafftio newidiadau.

**14. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

14.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 14 Gorffennaf 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

14.2 Cyhoeddwyd adroddiad ar y Cynigion Terfynol ar gyfer Trefniadau Cymunedol Rhondda Cynon Taf.

14.3 Caiff fersiwn derfynol o'r Cynigion Terfynol ar gyfer Arolwg Cymunedol Sir y Fflint ei hystyried gyda'r nod o gyhoeddi ym mis Medi.

**15. Calendr Digwyddiadau**

15.1 Ystyriwyd dyddiad cyfarfod y Comisiwn ym mis Tachwedd. **Cytunwyd** y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal ar 17 Tachwedd.

15.2 **Nodwyd** y calendr.

**16. Unrhyw fater perthnasol arall**

16.1 Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad gan y Prif Weithredwr ar y gofyniad posibl i'r Comisiwn gynnal arolwg o ffiniau'r awdurdod lleol i fodloni'r Lagŵn Bae Abertawe arfaethedig. Byddai'r Prif Weithredwr yn cyfarfod â'r datblygwr ar 23 Gorffennaf i gasglu mwy o wybodaeth a bydd yn adrodd ymhellach i'r Comisiwn.

16.2 Rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y daw Cofrestru Etholiadol Unigol i rym ym mis Rhagfyr 2015. Byddai'r effaith ar waith y Comisiwn yn destun adroddiadau pellach.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 13 Awst 2015**